



Nod:

Dangos i ddysgwyr pa mor bwysig yw gwybod beth sy'n ddiogel i'w fwyta a beth ddylid eu gadael.

Mae fforio am fwyd gwyllt wedi mynd yn ffasiynol iawn ond oni bai eich bod yn 100% siŵr, gadewch y madarch, yr aeron a'r ffrwythau diddorol hynny

Sut i chwarae:

Mae dwy set o gardiau A3 – set A a B.

Mae un person yn sefyll ar un ochr gyda set A ac mae'r person arall yn sefyll ar wahân gyda set B.

Dylai'r person sydd â set A hefyd gael y cerdyn disgrifiad wedi'i lamineiddio.

Gwahoddwch eich dysgwyr i sefyll rhwng yr arweinyddion sy'n dal y cardiau.

Esboniwch mai nod y gêm yw i oroesi "bwyta" y madarch amrywiol drwy ddewis pa un ym mhob rownd y maen nhw'n meddwl allai fod yn fwyadwy. Os byddan nhw'n dewis yr un anghywir, byddan nhw naill ai'n "eithriadol o sâl" neu'n waeth fyth yn "farw"!

Daliwch y cardiau wedi'u marcio 1A a 1B i fyny fel eu bod yn gallu cael eu gweld yn glir a darllenwch y disgrifiadau. Gofynnwch i'r rhai sy'n chwarae mynd i sefyll ba ochr y maen nhw'n meddwl yw'r madarch bwytadwy.

Mae'r rhai sydd wedi dyfalu'n iawn yn dal i fod yn y gêm, a'r rhai sy'n anghywir allan a dylent fynd i sefyll i'r ochr.

Yn dibynnu ar eich niferoedd/math o grŵp gallwch egluro y gallant barhau i chwarae ar ôl iddynt gael eu "lladd". Neu unwaith rydych chi allan, gofynnwch iddyn nhw symud i'r ochr neu i orwedd o gwmpas "wedi marw"!

Mae chwech rownd i gyd.

Ar y diwedd:

Esboniwch y gall y bwyd rhad ac am ddim sydd ar gael mewn coetiroedd neu berthi fod ar draul ein hiechyd os ydych yn bwyta'r peth anghywir.

Holwch - ble ddylech chi gael eich madarch?

Gofynnwch i'r plant- beth ddylech chi wneud os oes rhuwyn yn eich cymell i fwyta rhywbeth nad nad ydynt yn siŵr ohono?



A's	B's
<p>1A - Amanita'r Gwybed ☠️</p> <p>Dyma'r darlun sydd gennym wrth feddwl am fadarch gwenwynig mewn straeon tylwyth teg.</p>	<p>1B - Cloronen y moch 🍴</p> <p>Mae'r madarch hyn sy'n cael eu hystyried yn ddanteithfwyd mewn gwledydd fel Ffrainc yn gallu gwerthu am brisiau cymaint â £750 y cilogram.</p>
<p>2A - Amanita Wridog 🍴</p> <p>Bwytdwy ar ôl eu coginio.</p>	<p>2B - Amanita Panther ☠️</p> <p>Madarch prin sy'n tyfu yn Ne Affrica ac Ewrop hyd at Asia. Maent yn cael effaith ar yr ymennydd ac yn atal rhai negeseuon rhag cael eu hanfon.</p>
<p>3A - Madarch Morel Ffug ☠️</p> <p>Ni chânt ddim effaith bron ar rai pobl ar ôl eu coginio ond gallant ladd pobl eraill. Mae pobl y Ffindir a Sweden yn berwi'r madarch er mwyn eu defnyddio ac eto mae rhai pobl wedi bod yn wael iawn dim ond wrth arogl'r stêm sy'n codi o'r sosban.</p>	<p>3B – Morel Cyffredin 🍴</p> <p>Yn cael ei ddefnyddio yn aml mewn bwyd Tsieineaidd.</p>
<p>4A - Twmffat Rhychog ☠️</p> <p>Mae bwyta'r madarch hyn yn arwain at ataliad ar y galon neu ddiffyg anadlu a marwolaeth 8-9 awr ar ôl eu bwyta.</p>	<p>4B – Corn Llawnder 🍴</p> <p>Madarch blasus iawn a ddefnyddir i goginio yn nifer o wledydd Ewrop.</p>
<p>5A – Cap Marwol Ffug Gwyn 🍴</p> <p>Er bod y ffwng hwn yn cynnwys tocsin, os caiff ychydig bach ei fwyta ni fydd yn debyg o gael effaith sylweddol ar oedolyn iach. Mae'n hawdd ei gamgymryd am y Cap Marwol.</p>	<p>5B – Cap Marwol ☠️</p> <p>Hwn fu'n gyfrifol am ladd yr Ymerawdwr Rhufeinig Claudius. Mae'n edrych fel sawl math arall o fadarch a gellir ei gamgymryd yn ddigon hawdd am fadarchen fwytdwy.</p>
<p>6A – Angel Angau ☠️</p> <p>Dim symptomau am 24 awr ond yna bydd yn effeithio ar yr iau a'r arenau. Nid oes gwellhad ac eithrio trawsblaniad iau ac arenau.</p>	<p>6B – Caws Ceffyl 🍴</p> <p>Mae'r Caws Ceffyl yn cael ei gyfrif yn un o'r madarch gwyllt mwyaf blasus ac wedi cael ei werthfawrogi gan genedlaethau.</p>